**Crynodeb o Gyfarfod Bwrdd S4C**
Cyfarfod Rhif 468 a gynhaliwyd yn Yr Egin

09.45, 25 Ionawr 2024

---

**Cofnodion**

| **Aelodau oedd yn bresennol:** | | |
|---|---|---|
| Rhodri Williams | RhW | Cadeirydd y Bwrdd |
| Guto Bebb | GB | Aelod Anweithredol |
| Adele Gritten | AG | Aelod Anweithredol (yn rhithiol) |
| Chris Jones | CJ | Aelod Anweithredol (yn rhithiol) |
| Denise Lewis Poulton | DLP | Aelod Anweithredol |
| Elin Morris | EM | Prif Swyddog Gweithredol – o eitem 2 ymlaen |
| Geraint Evans | GE | Cyfarwyddwr Strategaeth Cynnwys a Chyhoeddi – o eitem 2 ymlaen |
| **Eraill oedd yn bresennol:** | | |
| Manon Edwards-Ahir | ME-A | Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata – o eitem 2 ymlaen (yn rhithiol) |
| Llinos Priestland | LlP | Swyddog Gweithredol i Ysgrifennydd y Bwrdd |
| Geraint Pugh | GP | Ysgrifennydd Bwrdd S4C |
| Dyfrig Davies | DD | Cadeirydd, TAC - ar gyfer eitem 2 |
| Sioned Harries | SH | Swyddog Gweinyddol, TAC – ar gyfer eitem 2 |
| Carwyn Donavan | CD | Cynrychiolydd Bectu – ar gyfer eitem 3 |
| Iestyn Morris | IM | Pennaeth Cyfreithiol – ar gyfer eitem 7 |
| Elinor Price | EP | Rheolwr Cyllid – ar gyfer eitem 9 |
| Dewi Evans | DE | Rheolwr Prosiect – ar gyfer eitem 10 |
| Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Suzy Davies | | |

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Cyfarfod preifat ar gyfer yr aelodau anweithredol**<br><br>Cynigiodd RhW ddiweddariad ar y mater oedd wedi tynnu at sylw'r aelodau anweithredol yn ystod cyfarfod y bwrdd ar 07 Rhagfyr 2023. | |
| 2. | [ymunodd EM, GE, ME-A, DD a SH â'r cyfarfod]<br><br>**Trafodaeth gyda chynrychiolwyr TAC**<br><br>Roedd yn draddodiad i'r Bwrdd Unedol gwrdd yn flynyddol gyda chynrychiolwyr TAC. Diolchodd RhW felly Dyfrig Davies a Sioned Harries am deithio i'r Egin i gyfarfod y Bwrdd, ac fe'u croesawyd i'r cyfarfod.<br><br>Cyflwynodd DD a SH gan nodi:<br>• Bod aelodaeth TAC yn parhau'n sefydlog;<br>• Er gwaethaf yr heriau i S4C wynebu'n ddiweddar a'r effaith roedd hynny wedi ei gael ar y sector, roedd TAC yn ddiolchgar i EM a GE am y sefydlogrwydd roeddent wedi darparu dros yr wythnosau diwethaf.<br>• I TAC gwrdd gyda DCMS a'r Gweinidog John Whittingdale AS i drafod 'brass plating' a'r angen i gadw incwm a pherchnogaeth eiddo deallusol oddi fewn i'r sector yng Nghymru. | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Bod TAC yn parhau i ddarparu amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant, gan gydweithio gydag S4C ar elfennau megis cydymffurfiaeth ag amlygrwydd, ac ymwybyddiaeth hil.<br><br>Diolchwyd i DD a SH am eu cyflwyniad, ac am gefnogaeth TAC i S4C dros y misoedd diwethaf. Trafodwyd gwahanol elfennau o'r cyflwyniad ymhellach gydag aelodau'r Bwrdd.<br><br>Nododd RhW mai'r ymgynghoriad ar ddyfodol Ffi'r Drwydded fyddai'r drafodaeth fawr nesaf ar y gorwel – fyddai gyda goblygiadau sylweddol i S4C a'r sector yng Nghymru. Anogwyd TAC i gyfrannu at yr ymgynghoriad hwnnw pan fyddai'n briodol.<br><br>Mynegodd DD ddymuniad rhai aelodau TAC i Fwrdd S4C fod yn fwy gweledol mewn digwyddiadau dros y misoedd nesaf. Nodwyd bod rhai cwmnïoedd cynhyrchu eisoes yn rhagweithiol yn gwahodd aelodau'r Bwrdd i ymweld â'u swyddfeydd neu gwahanol digwyddiadau le mae cynhyrchu byw yn digwydd. Serch hynny, roedd aelodau'r Bwrdd yn awyddus i dderbyn mwy o wahoddiadau tebyg.<br><br>O ran trefniadau hyfforddiant, trafodwyd y rhesymau pam nad oedd modd i rai cwmnïoedd gynnig prentisiaethau. Er mwyn ehangu cyfleon, awgrymwyd y gallai TAC weithio gyda Cymru Greadigol – gyda chefnogaeth S4C – i ddatblygu cynllun amgen fyddai'n arwain at gymhwyster addas. Byddai TAC yn ystyried hyn ymhellach.<br><br>[gadawodd DD a SH y cyfarfod] | |
| 3. | [ymunodd CD â'r cyfarfod]<br><br>**Trafodaeth gyda Carwyn Donavan, Bectu**<br><br>Croesawyd CD i'r cyfarfod, yn dilyn ei gais i fynychu i annerch aelodau'r Bwrdd. Diolchodd RhW i CD am ei sylwadau cefnogol Bectu yn dilyn cyhoeddi adroddiad Capital Law ar 06 Rhagfyr 2023.<br><br>Roedd CD yn awyddus i gydweithio gydag S4C ar roi mesurau cadarnhaol ar waith i osgoi sefyllfa debyg yn y dyfodol. Trafodwyd y cynlluniau oedd yn cael eu datblygu gan y Tîm Rheoli, ac fe ymrwymwyd i rannu'r Cynllun Adfer gyda CD unwaith ag y byddai wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: I rannu'r Cynllun Adfer gyda Bectu unwaith ag y bydd wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd.**<br><br>Trafodwyd y rhesymau pam nad oedd aelodau Bectu yn gyfforddus i godi eu pryderon yn ystod gwanwyn 2023 yn unol â pholisïau presennol S4C. Esboniodd CD mai pryder aelodau Bectu ynghylch codi'r materion hyn o gwbl oedd wrth wraidd hyn, ac nid unrhyw ddiffygion o ran polisïau S4C. Awgrymodd serch hynny y gellid gwneud y ffiniau rhwng gwahanol bolisïau'n gliriach.<br><br>**Penderfyniad: Bod y Pwyllgor Pobl a Thaliadau'n adolygu'r cydadwaith rhwng y gwahanol bolisïau adnoddau dynol, er mwyn cynnig eglurder ar y mathau o bryderon i godi o dan pob polisi.**<br><br>Roedd CD hefyd ei fod yn awyddus i ailsefydlu ei gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Tîm Rheoli, ac i gychwyn cwrdd yn flynyddol gyda'r Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: Bod y Bwrdd yn cwrdd yn flynyddol gyda Bectu.**<br><br>[gadawodd CD y cyfarfod] | GP<br><br>GP<br><br>GP |
| 4. | **Materion a godwyd gan y Cadeirydd, a datganiadau diddordeb**<br><br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd unrhyw Aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod i ddatgan eu diddordeb. Nodwyd bod aelodau wedi nodi diddordebau parhaol mewn perthynas â'u haelodaeth o'r Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: I ddiweddaru datganiad buddiannau GB i adlewyrchu'r wybodaeth ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y cyfarfod.** | LlP |
| 5. | **Ymateb i Adroddiad Capital Law** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd, cytunwyd i fynd ati i gytuno ar raglen waith, fyddai'n cynnwys cynllun gweithredu ar drawsnewid diwylliannol wedi ei ddatblygu gan y Tîm Rheoli. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi nodi ei disgwyliad y byddai rhaglen waith o'r fath yn cael ei datblygu yn ei llythyr at aelodau'r Bwrdd ar 16 Ionawr 2024.<br><br>Roedd y Tîm Rheoli a'r Ysgrifennydd bellach wedi datblygu rhaglen adnewyddu – Cynllun Adfer S4C – ac fe gylchredwyd drafft i'w ystyried gan y Bwrdd. Trafodwyd prif agweddau'r Cynllun Adfer arfaethedig, ac fe gynigiwyd adborth.<br><br>Roedd y drafodaeth ynghylch gwerthoedd craidd S4C eisoes wedi cychwyn yn ystod y sesiwn Cwrdd i Ffwrdd gyda'r staff ar 18 Ionawr 2024. Y bwriad nawr oedd penodi hwylusydd allanol i weithio gyda'r staff i barhau gyda'r drafodaeth hon, a rhai agweddau eraill o'r Cynllun Adfer.<br><br>Gan fod adroddiad Capital Law wedi amlygu'r angen i ail-sefydlu ymddiriedaeth y gweithlu yn yr adran Adnoddau Dynol, awgrymwyd y dylid ychwanegu gweithred bwrpasol yn y Cynllun Adfer.<br><br>Roedd GP eisoes wedi drafftio dogfen naratif oedd yn adlewyrchu ar ddigwyddiadau'r misoedd nesaf. Roedd y ddogfen wedi cyfrannu at gynnwys y briffiau ar gyfer ymddangosiadau RhW a CJ gerbron y pwyllgorau seneddol. Fodd bynnag, awgrymwyd y dylid llunio dogfen naratif byrrach i esbonio'r Cynllun Adfer newydd. | |
| | **Penderfyniad: I ddiwygio'r Cynllun Adfer yn unol â'r adborth dderbyniwyd, a'i gylchredeg i'w ystyried gan yr aelodau dros e-bost o fewn pythefnos.** | GP / GE / EM |
| | **Penderfyniad: Bod dogfen naratif fer yn cael eu datblygu i esbonio'r Cynllun Adfer, i'w hystyried dros e-bost o fewn pythefnos.** | ME-A |
| | **Penderfyniad: Bod 'lines to take' addas yn cael eu datblygu mewn perthynas â'r Cynllun Adfer, a'u rhannu gydag aelodau'r Bwrdd.** | ME-A |
| | **Penderfyniad: Bod y Cynllun Adfer yn cael ei rannu gyda staff, y DCMS a Bectu am adborth wedi iddo gael ei gymeradwyo gan y Bwrdd, cyn rhannu copi gyda'r pwyllgorau seneddol ac unrhyw randdeiliaid eraill.** | GP / GE / EM |
| 6. | **Cynlluniau Cyfathrebu a Marchnata**<br><br>Yn dilyn ei thrafodaethau gyda DLP, cyflwynodd ME-A Cynllun Partneriaethau ar gyfer y misoedd nesaf wrth i ni fynd ati i ail-sefydlu enw da S4C. Amlygodd brif agweddau'r cynllun arfaethedig, gan gydnabod y byddai elfennau'n ddibynnol ar bwy fyddai'n gwasanaethu fel y Cadeirydd dros dro a'r Prif Weithredwr dros dro.<br><br>Croesawodd DLP y cynllun drafft, a nododd bwysigrwydd bod yn wyliadwrus wrth drefnu lletygarwch corfforaethol ar hyn o bryd oherwydd yr 'optics'.<br><br>Roedd ME-A hefyd wedi diwygio'r Strategaeth Cyfathrebu a Marchnata hirdymor yn sgil adborth yr aelodau yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Cyfathrebu. Byddai'n cyflwyno'r Strategaeth honno i'w hystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor hwnnw fis nesaf. | |
| | **Penderfyniad: I gymeradwyo'r Cynllun Partneriaethau ar gyfer y misoedd nesaf.** | ME-A |
| | **Penderfyniad: Bod 'message matrix' addas yn cael ei ddatblygu i gyd-fynd gyda'r Cynllun Partneriaethau, a'u rannu gyda'r Bwrdd.** | ME-A |
| <br><br>7. | [ymunodd IM â'r cyfarfod]<br><br>**Polisi Cyfryngau Cymdeithasol**<br><br>Amlinellodd IM prif egwyddorion y Polisi Cyfryngau Cymdeithasol a oedd wedi ei ddatblygu i roi canllawiau i'r sector cynhyrchu annibynnol ar ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn gysylltiedig â chynnwys, brandiau a chyfrifon S4C. Roedd y Polisi hefyd yn cynnig canllawiau penodol ar gyfer cyfrifon cymdeithasol personol wynebau a phersonau golygyddol sy'n gweithio ar gyfresi S4C.<br><br>Nodwyd bod y BBC wedi datblygu polisi y llynedd ar y defnydd o gyfryngau cymdeithasol gan eu hwynebau blaenllaw, ac roedd S4C wedi ceisio adlewyrchu'r egwyddorion perthnasol yn ein Polisi Cyfryngau Cymdeithasol. | |

S4C

| | | |
|---|---|---|
| | Roedd polisi ar wahân mewn perthynas â defnydd staff S4C o gyfryngau cymdeithasol. Roedd y polisi hwn yn rhan o'r Cod Ymddygiad roedd disgwyl i staff newydd gytuno adeg eu penodi. Awgrymwyd serch hynny y dylai annog holl staff S4C i atgoffa'u hunain o'r polisi, a'r Cod Ymddygiad yn ehangach.<br><br>[gadawodd IM y cyfarfod] | |
| 8. | **Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2024–25**<br><br>Cyflwynwyd Cynllun Rhaglenni'r BBC ar gyfer 2024-25. Wrth amlinellu prif agweddau'r Cynllun Rhaglenni, esboniodd GE mai'r gobaith oedd cadw at strwythur go debyg i eleni – er bod effaith chwyddiant yn golygu na fyddai modd cynnwys cymaint o chwaraeon â'r arfer oddi fewn i'r cynllun.<br><br>Nodwyd y byddai Mesur y Cyfryngau yn cynnig cyfle i S4C a'r BBC ddod i gytundeb ar opsiwn amgen nad oedd yn seiliedig ar nifer oriau. Byddai papur ar wahanol ystyriaethau yn hynny o beth yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Cwrdd i Ffwrdd nesaf y Bwrdd.<br><br>**Penderfyniad: Cymeradwywyd y Cynllun Rhaglenni ar gyfer 2024–25.**<br><br>**Penderfyniad: Bod adroddiad ar opsiynau amgen yn lle'r 10 awr statudol yn cael ei gyflwyno i gyfarfod Cwrdd i Ffwrdd y Bwrdd ym mis Ebrill 2024.** | GE<br><br>GE |
| 9. | [ymunodd EP â'r cyfarfod]<br><br>**Adroddiad Ariannol Chwarter 3**<br><br>Cyflwynodd EP yr adroddiad ariannol ar gyfer Chwarter 3 2023–24. Amlinellwyd prif agweddau'r adroddiad.<br><br>Nododd DLP bwysigrwydd cadw llygad ar gostau mynychu digwyddiadau allanol a chynnal digwyddiadau corfforaethol, yn ogystal â'r treuliau sy'n cael eu hawlio'n gyffredinol. Esboniwyd bod gwariant o'r fath yn cael ei fonitro.<br><br>[gadawodd EP y cyfarfod] | |
| 10. | [ymunodd DE â'r cyfarfod]<br><br>**Diweddariad chwarterol ar ddashfwrdd cyflawni'r Strategaeth (ar gyfer y DCMS)**<br><br>Cyflwynodd DE ddiweddariad chwarterol o'r dashfwrdd. Wrth wneud hynny, amlinellodd DE y prif newidiadau ers i'r Bwrdd adolygu'r dashfwrdd yn Hydref 2023.<br><br>Nododd RhW i'r DCMS holi'n flaenorol bod adroddiadau chwarterol S4C yn ffocysu ar y defnydd o'r £7.5m ychwanegol a ddyfarnwyd i ni o Ffi'r Drwydded. Roedd risg byddai rhannu'r dashfwrdd llawn yn golygu bod S4C yn gor-adrodd ar weithgareddau ehangach.<br><br>Esboniodd DE ei fod yn llunio papur ychwanegol i'w gyflwyno i'r DCMS gyda'r dashfwrdd sy'n rhoi diweddariad penodol ar sut mae'r £7.5m ychwanegol yn cael ei wario. Byddai hefyd yn trafod gyda GP ynghylch y posibilrwydd o ddiwygio fformat y dashfwrdd chwarterol er mwyn osgoi gor-adrodd.<br><br>**Penderfyniad: Bod DE a GP yn adolygu fformat y dashfwrdd chwarterol.**<br><br>**Penderfyniad: I gymeradwyo'r dashfwrdd i'w gyflwyno i'r DCMS.**<br><br>[gadawodd DE y cyfarfod] | DE / GP<br><br>GP |
| 11. | **Adroddiad y Tîm Rheoli**<br><br>Cyflwynwyd yr adroddiad, oedd yn amlinellu'r gwaith oedd wedi digwydd dros y cyfnod diweddar.<br><br>Adroddwyd bod y Fforwm Staff newydd bellach ar waith, a bod adborth defnyddiol wedi cael ei gyflwyno ganddynt yn dilyn eu cyfarfod cyntaf i'r Tîm Rheoli a'r Tîm Trawsnewid. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol rhannu'r adborth gyda'r Bwrdd er gwybodaeth.<br><br>**Penderfyniad: Bod adborth y Fforwm Staff i'r Tîm Rheoli a'r Tîm Trawsnewid yn cael ei rannu gyda'r Bwrdd.** | GP |
| 12. | **Cofnodion Cyfarfodydd Rhif 466 a 467 (a gynhaliwyd 07.12.23 a 14.12.23)** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd diwethaf y Bwrdd, ac fe’u cymeradwywyd. | |
| 13. | **Cofrestr Pwyntiau Gweithredu**<br><br>Nodwyd y gofrestr Pwyntiau Gweithredu. | |
| 14. | **Rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y 12 mis nesaf**<br><br>Nodwyd rhaglen waith y Bwrdd ar gyfer y flwyddyn nesaf. | |